DIFFIBRILIWR CYMUNEDOL

Mae'n bleser gallu eich hysbysu fod **Cyngor Cymuned Penmynydd** wedi prynu a gosod **Diffibriliwr** yn y Ganolfan ar gyfer y gymuned leol. Bwriad y Cyngor yw darparu un arall yn fuan yn Star.

Oherwydd cyfyngiadau Covid-19, mae'n amhosibl trefnu hyfforddiant cyhoeddus yn y Ganolfan ar sut i'w ddefnyddio fel y bwriadwyd. Pan fydd yn ddiogel ac yn ymarferol i wneud, fe drefnwn hynny.

Yn y cyfamser, rydym yn cynnig cyswllt i ddau fidio a gafwyd gan y Gwasanaeth Ambiwlans, un yn y Gymraeg a'r llall yn Saesneg, ac os rhoddwch ***'Difib Training Videos'*** i mewn yn offeryn chwilio ***YouTube***, cewch hyd i fyrdd ohonynt.

Gobeithio'n fawr na fydd defnydd iddo ond, os cyfyd achos ble mae rhywun yn cael trawiad ar y galon, mae'n braf gwybod fod offer penigamp ar gael o fewn cyrraedd a allai achub bywyd.

Dafydd Idriswyn

Cadeirydd Cyngor Cymuned Penmynydd a Chanolfan Penmynydd.

COMMUNITY DIFIBRILLATOR

*We are happy to inform you that **Penmynydd Community Council** have bought and installed a **Defibrillator** for the local community in Canolfan Penmynydd. The Council also intends to install another one in Star soon.*

Because of Covid-19 restrictions, it is impossible to arrange training sessions in the Ganolfan as we had intended. When it is safe and practical to do so, they will be arranged.

In the meantime, we offer links to two training videos supplied to us by the Ambulance Service, one in Welsh and one in English, and if you type ***'Defib Training Videos'*** *into the* ***YouTube*** *search bar, you will find numerous helpful and instructive videos.*

Hopefully, there will be no use for the equipment, but it is gratifying to know that if a resident or visitor to the area does suffer a cardiac arrest, the Defibrillator is there to save lives.

Dafydd Idriswyn

Chair of Penmynydd Community Council and Canolfan Penmynydd

Fideos hyfforddiant / ***Training Videos***

CYMRAEG / WELSH

https://youtu.be/6gXQpEabLnQ

SAESNEG / ENGLISH

https://youtu.be/JjEB7ONI43c

Arweiniad ar offer y Ganolfan iPAD SP1 AED

Guidance on the iPAD SP1 AED

https://youtu.be/s5ZPLXdXPBc